# Sut i roi gwybod i ddefnyddwyr y grŵp am ddigwyddiad

National Autistic Society Cymru

## 1. Dulliau cyfathrebu



Cyn digwyddiad, mae'n bwysig cyfathrebu'n glir yn ysgrifenedig gyda'r grŵp.
Gallwch wneud hyn drwy:

- neges destun
- cyfryngau cymdeithasol
- e-bost.

## 2. Pethau i'w cynnwys wrth gyfathrebu



Nodwch yn glir:

- **dyddiad, amser a lleoliad** y digwyddiad
- am **ba hyd** y bydd y gweithgaredd yn para, e.e., dyweder rhwng 2pm a 3.30pm, yn hytrach nag awr a hanner.

Hefyd, rhowch:



- **ddisgwyliadau clir** o ran beth i'w ddisgwyl, e.e. defnyddio **cymhorthion gweledol** i ddangos cysylltiadau trafnidiaeth a lluniau o'r lleoliad



- **manylion cyswllt** mewn achos o ganslo neu oedi
- **digon o rybudd**, e.e. tua phythefnos cyn y digwyddiad.

## 3. Ffyrdd eraill o gyfathrebu



I annog pobl i ddod i ddigwyddiadau yn rheolaidd:

- yn union cyn y gweithgaredd (e.e. dri diwrnod cyn y digwyddiad yn ddelfrydol), anfon nodyn atgoffa at ddefnyddwyr y grŵp
- y diwrnod ar ôl y digwyddiad, anfon gohebiaeth ddilynol at yr bawb **newydd** oedd yn bresennol. Bydd hyn yn eu hannog i fynychu eto ac yn rhoi cyfle iddynt rannu eu profiadau gydag arweinydd y grŵp.